

24 Ionawr 2024



Neuadd y Sir  
Caerdydd,  
CF10 4UW  
Ffôn: (029) 2087 2088  
www.caerdydd.gov.uk  
County Hall  
Cardiff,  
CF10 4UW  
Tel: (029) 2087 2087  
www.cardiff.gov.uk

Annwyl Randdeiliad

## **Penderfynu ar y cynigion: Lleoedd cynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynigion ynghylch newidiadau i leoedd mewn ysgolion cynradd i wasanaethu Cathays, Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd fel y nodir isod:

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank
- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9 Dosbarth Mynediad) i 420 o leoedd (2 Ddosbarth Mynediad) a chynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96
- Cyfuno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone, drwy:
  - Gau Ysgol Gynradd Allensbank yn swyddogol.
  - Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn swyddogol.
  - Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2 Ddosbarth Mynediad) gyda dosbarth meithrin ar safle a rennir presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.

Yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2024 ystyriodd y cyngor y cynigion, y gwrthwynebiadau statudol a gyflwynwyd ac ymateb y cyngor i'r gwrthwynebiadau.

Nodwyd y cafwyd pum gwrthwynebiad. Ceir crynodeb o'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad gwrthwynebu, ynghyd ag ymateb y Cyngor. Ystyriwyd bod yr ymatebion a roddwyd gan y Cyngor yn ateb y materion a godwyd.

Mae'r adroddiad gwrthwynebu ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor:

[www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)

Cymeradwyodd y Cabinet y cynigion fel y nodir uchod heb eu newid.

Roedd y Cabinet yn fodlon:

- Bod yr ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig wedi ei gynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2018)

**GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI**  
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis, dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU**

The Council welcomes correspondence in Welsh, English or bilingually. We will ensure that we communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to delay.



- Cafodd y cynigion eu cyhoeddi'n unol â gofynion y Cod ac roeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.
- Byddai'r cynigion yn cynnal safonau presennol addysg a darpariaeth yn yr ardal.
- Byddai'r cynigion yn cynorthwyo pob ysgol i barhau i wella addysg ar gyfer eu holl ddysgwyr
- Byddai'r cynigion yn sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynigir yn diwallu anghenion amrywiol y gymuned leol
- Byddai'r cynigion yn cynorthwyo ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol, gyda chyllidebau ysgol sefydlog
- Byddai'r cynigion yn cynorthwyo ysgolion i ddyrannu cyfran uwch o gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr
- Byddai'r cynigion yn cynyddu lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg gan un Dosbarth Mynediad (210 disgybl oedran cynradd)
- Byddai'r cynigion yn atgyfnerthu lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg â lefel briodol o leoedd gwag.

Cyflwynwyd y newidiadau arfaethedig mewn partneriaeth â chorff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica sy'n cynnig trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol, o fis Medi 2025.

Yn eu cyfarfod ar 18 Ionawr 2024, ystyriodd corff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica eu cynnig. Nodwyd na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol a gyhoeddwyd gan y corff llywodraethu ar 9 Tachwedd 2023. Cymeradwyodd y corff llywodraethu'r cynigion fel y nodir heb eu newid.

### **Atgyfeirio Penderfyniad yr Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru**


Dan adran 54 Deddf 2013 os yw'r cynigion wedi'u cymeradwyo gan awdurdod lleol, caiff y cyrff canlynol, cyn diwedd y 28 diwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod y penderfyniad, atgyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:

- i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno*
- ii. Corff crefyddol priodol unrhyw ysgol yr effeithir arno*
- iii. Corff Llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol sy'n destun y cynigion*
- iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun y cynigion; a*
- v. sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno*

Mae'r penderfyniad yn amodol ar y gweithdrefnau galw i mewn fel y nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n galluogi adolygu penderfyniadau'r Cabinet. Os oes galw i mewn ar gyfer y penderfyniad, rhoddir gwybod i'r holl randdeiliaid.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar 029 2087 2720 neu e-bostiwch: [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk).

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'R. Portas', written in a cursive style.

Richard Portas  
**Cyfarwyddwr y Rhaglen**  
**Trefniadaeth Ysgolion**